

**Bwrdd Iechyd Prifysgol
Caerdydd a'r Fro
Archwiliad Glanweithdra
Dirybudd ar Hap**

Dyddiad yr ymweliad 19 Hydref 2010

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Tŷ Bevan
Parc Busnes Caerffili
Ffordd Fan
CAERFFILI
CF83 3ED

Ffôn: 029 2092 8850
Ffacs: 029 2092 8877

www.hiw.org.uk

Cynnwys

		Rhif y Dudalen
1.	Cyflwyniad	1
2.	Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd.....	3
2.1	Yr Amgylchedd Cyffredinol	3
2.2	Dwyrain 8, Ward Gofal yr Henoed, Ysbyty Llandochau	3
	Yr Amgylchedd	3
	Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	5
	Cyfarpar a Storfeydd.....	5
	Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	6
2.3	Yr Uned Dialysis Arennol, Ysbyty Prifysgol Cymru	7
	Yr Amgylchedd	7
	Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	8
	Cyfarpar a Storfeydd.....	8
	Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	9
2.4	B4, Niwrolawdriniaeth, Ysbyty Prifysgol Cymru	9
	Yr Amgylchedd	9
	Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog	10
	Cyfarpar a Storfeydd.....	11
	Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff	11

1. Cyflwyniad

1.1 Ym mis Mai 2006, mewn ymateb i bryderon a godwyd gan y cyhoedd a chleifion ar draws Cymru, cyhoeddodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) ei bwriad i gynnal archwiliadau dirybudd, ar hap, o lanweithdra mewn sefydliadau gofal iechyd ar draws Cymru. Cynhelir rhaglen o ymweliadau dirybudd bob blwyddyn.

1.2 Ystyrir gwybodaeth o sawl gwahanol ffynhonnell sy'n berthnasol i'r agenda hon, ac fe'i defnyddir i bennu cyfeiriad y rhaglen archwiliadau ar hap. Rydym yn parhau i adolygu'r rhaglen yn gyson gan ystyried unrhyw wybodaeth newydd a ddaw i'n sylw.

1.3 Fel rhan o'n Harchwiliad Glanweithdra Dirybudd ar Hap, rydym yn cynnal trafodaethau â'r staff clinigol ac yn arsylwi manau clinigol yn uniongyrchol. Mae'r rhestr wirio a ddefnyddir i lywio'r archwiliadau wedi ei seilio ar y pecyn archwilio Rheoli Haint a ddatblygwyd gan y Gymdeithasol Atal Heintiau (IPS).

1.4 Mae mwy o wybodaeth am AGIC, ei hymweliadau ar hap a'r pecyn archwilio a ddefnyddir i'w gweld yn www.hiw.org.uk

Ymweliad â Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

1.5 Ar 19 Hydref 2010, ymwelodd AGIC ag Ysbyty Llandochoau ac Ysbyty Prifysgol Cymru, sy'n rhan o Fwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, gan gynnal archwiliadau glanweithdra ar hap o'r manau canlynol:

- Dwyrain 8, Gofal yr Henoed, Ysbyty Llandochoau
- Yr Uned Dialysis Arennol, Ysbyty Prifysgol Cymru
- B4, Niwrolawdriniaeth, Ysbyty Prifysgol Cymru

1.6 Nodir ein canfyddiadau yn adrannau canlynol yr adroddiad hwn. Rydym yn tynnu sylw at gryfderau, yn ogystal â meysydd y mae angen eu gwella ymhellach, ac yn argymhell camau gweithredu. Mae'n ofynnol i'r Bwrdd Iechyd Baratoi Cynllun gwella i fynd i'r afael â'r meysydd allweddol sy'n destun pryder, a'i gyflwyno i AGIC o fewn pythefnos i gyhoeddi'r adroddiad hwn.

2. Canfyddiadau: Cryfderau, Meysydd i'w Gwella Ymhellach a Chamau y mae Angen eu Cymryd

2.1 Yr Amgylchedd Cyffredinol

Ystyriwyd bod safon glanweithdra amgylchedd cyffredinol y ddau ysbyty yr ymwelwyd â hwy yn dderbyniol. Gwelwyd nad oedd annibendod nac eitemau amhriodol yn y coridorau cyhoeddus a'r llwybrau cerdded.

2.2 Ward Dwyrain 8, Ward Gofal yr Henoed, Ysbyty Llandochau

Yr Amgylchedd

Ymwelsom â'r ward hon yn flaenorol ym mis Tachwedd 2009 a chodwyd pryderon ynglŷn â materion ystadau, glanweithdra a rheoli heintiau. Yn dilyn ein hymweliad, caewyd y ward gan y Bwrdd Iechyd er mwyn gallu gwneud gwaith adnewyddu sylweddol.

Rydym yn falch o nodi yr ystyriwyd bod safon glanweithdra'r ward yn dda ar adeg yr ymweliad hwn.



- Mae'r ward wedi ei hailaddurno ac mae llawr newydd wedi ei osod.



- Mae ystafelloedd ymolchi'r ward wedi eu hadnewyddu a gwelwyd eu bod yn lân ac nad oedd eitemau amhriodol yn cael eu cadw ynddynt.



- Mae'r ystafell amlbwrpas eitemau budron wedi ei huwchraddio gyda gosodiadau a ffitiadau newydd.



- Archwiliwyd y comodau ar y ward a gwelwyd eu bod i gyd yn lân ac yn barod i'w defnyddio. Mae'r ward wedi buddsoddi mewn tâp a osodir o amgylch y comôd i ddangos ei fod yn barod i'w ddefnyddio. Mae hyn yn gweithio'n dda.



- Mae'r ward wedi buddsoddi mewn didolwyr gel sy'n cynnwys teclyn i ddal diferion er mwyn osgoi staeniau gel ar y wal a'r llawr. Ystyrir bod hyn yn arfer nodedig.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd yr holl dillad gwely a llieiniau glân ar y ward yn cael eu cadw'n briodol mewn man penodedig, ac nid oedd unrhyw eitemau amhriodol yno. Roedd dillad gwely a llieiniau a oedd wedi eu defnyddio yn cael eu cadw ar wahân mewn bagiau priodol gyda chod lliw, ac roeddynt yn cael eu storio'n gywir cyn eu gwaredu.

Roedd y ward yn trin a gwaredu gwastraff yn briodol.

Roedd y ward yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol o ran trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel.



- Roedd staff y ward yn defnyddio tâp y rhoddir llofnod a dyddiad arno i ddangos y tro diwethaf y glanhawyd y troli dillad gwely a llieiniau. Ystyriwyd bod hyn yn arfer nodedig.

Cyfarpar a Storfeydd

Gwelwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân, ac y cedwir offer yn ddiogel ac yn briodol.



- Mae cypyrddau bach clodwy unigol wedi eu neilltuo ar gyfer cleifion a chedwir eu dillad, eu powlenni golchi a'u gwregysau codi ynddynt. Ystyrir bod hyn yn arfer nodedig.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Roedd y staff y siaradasom â hwy yn ystod ein hymweliad wedi derbyn hyfforddiant ar reoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf a gwelwyd bod yr arferion hylendid dwylo yn dderbyniol. Roedd gan y staff wybodaeth dda ynglŷn â phryd y dylent olchi eu dwylo a phryd y dylent wisgo menig.

Yn dilyn y gwaith adnewyddu, mae'r tîm rheoli heintiau wedi bod yn amlwg ar y ward yn cynnal archwiliadau ac yn rhoi cymorth priodol i'r staff.

Mae archwiliadau amgylcheddol yn cael eu cynnal ar y ward a bu lefel gyson o gydymffurfiaid o ran cymhennu, gwastraff a chomodau, ac mae'r canlyniadau ar gael i'r staff.

Mae amserlenni glanhau cofnodedig wedi eu sefydlu ar gyfer y nyrsys er mwyn sicrhau bod y staff yn gwybod ac yn deall pwy sy'n gyfrifol am lanhau beth a pha bryd.

Cynhelir archwiliadau hylendid dwylo ar y ward a dylai'r rhain barhau. Dylid cynnwys y staff yn y rhain a'u hysbysu am y canlyniadau fel y gellir ymdrin ag unrhyw faterion a nodir mewn modd amserol.

2.3 Yr Uned Dialysis Arennol, Ysbyty Prifysgol Cymru

Yr Amgylchedd

Gwelwyd bod safon glanweithdra'r ward yn dderbyniol, ond roedd yr amgylchedd cyffredinol mewn cyflwr gwael.



- Gwelwyd bod nifer o'r waliau wedi eu difrodi'n wael.



- Mae nifer o bibellau wedi eu symud ar y ward ac o ganlyniad, mae tyllau a phlastr noeth i'w gweld. Mae hyn yn annerbyniol. Dylid ailorchuddio'r holl dyllau yn y plastr.

Archwiliwyd y comodau ar y ward a gwelwyd eu bod i gyd un yn lân ac yn barod i'w defnyddio.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog



- Gwelwyd gwastraff clinigol mewn bin gwastraff domestig. Mae hyn yn annerbyniol. Dylid gwahanu gwastraff clinigol yn briodol.

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân ar y ward yn cael eu cadw'n briodol mewn man penodedig ac nid oedd unrhyw eitemau amhriodol yno. Roedd dillad gwely a llieiniau a oedd wedi eu defnyddio yn cael eu cadw ar wahân mewn bagiau priodol â chodau lliw, ac yn cael eu storio'n gywir cyn eu gwaredu.

Roedd y ward yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol o ran trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel.

Cyfarpar a Storfeydd

Gwelwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân, ac y cedwir offer yn ddiogel ac yn briodol.



- Roedd yr ystafell amlbwrpas eitemau budron hefyd yn cael ei defnyddio fel ystafell ddomestig. Ni ddylid cadw cyfarpar domestig yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron gan fod hynny'n peri risg o halogiad.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Amlygodd ein sgysiau gyda'r staff nad oedd pob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant ar reoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf. Dylai'r holl staff gael hyfforddiant/diweddariadau rheoli heintiau bob blwyddyn, a dylai hyfforddiant o'r fath gynnwys arferion hylendid dwylo ymarferol.

Roedd gwybodaeth y staff ynglŷn â gweithdrefnau hylendid dwylo yn anghyson. Nid oedd pob aelod o'r staff yn sicr pryd y dylent olchi eu dwylo, defnyddio gel alcohol a phryd i wisgo menig.

Roeddem hefyd yn pryderu ynghylch y ffaith fod gweithdrefnau aseptig yn cael eu cynnal gan ddefnyddio'r byrddau dros welyau'r cleifion yn hytrach na throli triniaeth penodedig. Mae hyn yn annerbyniol. Dylai gweithdrefnau aseptig gael eu cynnal ar arwyneb gwaith penodedig, naill ai troli neu hambwrdd triniaeth.

Gwelsom hefyd glampiau fasgwlaidd yn socian mewn bwcedi agored o hydroclorid, sef sylwedd a ddefnyddir i lanhau'r offer. Roedd y bwcedi hyn wedi eu gosod dan y sincipiau ym manau'r cleifion. Mae hyn yn codi nifer o faterion posibl o safbwynt rheoli heintiau, Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd (COSHH) ac iechyd a diogelwch yn ymwneud â halogiad, gollyngiadau a'r ffaith fod deunyddiau peryglus ar gael i'r cleifion. Ceir pryder hefyd ynglŷn â sut y trosglwyddir yr eitemau hyn o'r ward, a'r weithdrefn sydd wedi ei sefydlu i'w glanhau a'u diheintio cyn y'u defnyddir eto.

2.4 Ward B4, Niwrolawdriniaeth, Ysbyty Prifysgol Cymru

Yr Amgylchedd

Gwelwyd bod safon glanweithdra'r ward yn dderbyniol, ond roedd yr amgylchedd cyffredinol mewn cyflwr gwael. Fe'n hysbyswyd gan y Bwrdd Iechyd bod rhaglen wedi ei sefydlu i adnewyddu'r ward.



- Gwelwyd bod y waliau wedi eu difrodi'n wael.



- Gwelwyd bod y tanc malu yn yr ystafell amlbwrpas eitemau budron mewn cyflwr gwael a bod tâp yn cael ei ddefnyddio i'w ddal at ei gilydd. Mae hyn yn annerbyniol gan fod posibilrwydd o halogiad oherwydd ni ellir glanhau'r tanc malu'n effeithiol.

Archwiliwyd y comodau ar y ward a gwelwyd eu bod i gyd yn lân ac yn barod i'w defnyddio.

Trin a Gwaredu Dillad Gwely a Llieiniau, Gwastraff ac Eitemau Miniog

Roedd y ward yn trin a gwaredu gwastraff yn briodol.

Roedd yr holl ddillad gwely a llieiniau glân ar y ward yn cael eu cadw'n briodol mewn man penodedig. Roedd dillad gwely a llieiniau a oedd wedi eu defnyddio yn cael eu cadw ar wahân mewn bagiau priodol â chodau lliw, ac yn cael eu storio'n gywir cyn eu gwaredu. Fodd bynnag, roedd rhai eitemau amhriodol yn cael eu cadw yn yr ystafell dillad gwely a llieiniau, a dylid symud y rhain.

Roedd y ward yn cydymffurfio â safonau cenedlaethol o ran trin a gwaredu eitemau miniog yn ddiogel.

Cyfarpar a Storfeydd

Gwelwyd bod y cyfarpar ar y ward yn lân, ac y cedwir offer yn ddiogel ac yn briodol.



- Gwelwyd bod yr ystafell glinigol yn anniben gan fod blychau ac eitemau eraill yn cael eu cadw yno. Dylid symud y rhain a'u gosod uwchben lefel y llawr fel y gellir glanhau'n briodol.

Gwybodaeth ac Arferion Gwaith y Staff

Amlygodd ein sgysiau gyda'r staff nad oedd pob un ohonynt wedi derbyn hyfforddiant ar reoli heintiau yn ystod y 12 mis diwethaf. Dylai'r holl staff gael hyfforddiant/diweddariadau rheoli heintiau bob blwyddyn, a dylai hyfforddiant o'r fath gynnwys arferion hylendid dwylo ymarferol.

Roedd anghysondebau o ran gwybodaeth y staff ynglŷn â glanhau a diheintio hefyd. Dylid sicrhau bod canllawiau eglur ar gael i'r staff gyfeirio atynt.